**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION ADRODDIAD Y PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG: CRAFFU AR GYLLIDEB DDRAFFT LLYWODRAETH CYMRU 2021-22**

**MAWRTH 2021**

---

## TRYLOYWDER GWARIANT AR BLANT (ADRAN 3)

**Argymhelliad 1.** Bod y Pwyllgor sy’n ein dilyn ni yn y Chweched Senedd yn monitro'r ymrwymiad a wneir yn ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar Hawliau Plant i fireinio a diwygio ei Chynllun Gwella’r Gyllideb, gan adlewyrchu ei gydymffurfiad â Mesur 2011 wrth gyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft 2022-23

**Ymateb: Derbyn**

Yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad ‘Hawliau Plant yng Nghymru’, gwnaethom gyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru o Gynllun Gwella'r Gyllideb ar 21 Rhagfyr 2020 fel rhan o becyn Cyllideb Ddrafft 2021-22.

Fel rhan o'r diweddariad hwn, gwnaethom ddiwygio’r Cynllun er mwyn adlewyrchu’r modd y byddwn yn parhau i wella'r ffordd rydym yn asesu effeithiau penderfyniadau ynghylch gwariant yn y blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â rhanddeiliaid i ystyried ymhellach sut y gall gwybodaeth am benderfyniadau cyllidebol yng nghyd-destun effeithiau penodol – megis Hawliau Plant – fod yn fwy tryloyw, yng nghyd-destun ystyried yr effeithiau o safbwyntiau gwahanol.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau proses dryloyw ar gyfer dyrannu cyllid COVID-19 yn ystod y flwyddyn, a dylai’r ddyletswydd gyfreithiol i roi 'sylw dyledus' i hawliau plant a phobl ifanc fod yn ystyriaeth i holl Weinidogion Llywodraeth Cymru wrth benderfynu ar y dyraniadau y maent yn gofyn amdanynt.

**Ymateb: Derbyn**

Bu hawliau plant wrth wraidd penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn ei hymateb i'r pandemig. Mae Mesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i CCUHP a'i gonfensiynau dewisol wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

Wrth inni fynd i mewn i 2021-22, rydym yn parhau yn ymrwymedig i fod yn agored ac yn dryloyw o ran ein dyraniadau cyllidebol ac asesu eu heffeithiau, gan gynnwys y ddyletswydd i roi sylw dyledus i hawliau plant, fel rhan o'r broses honno.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chyhoeddi ei Chyllideb Atodol, ddarparu diweddariadau rheolaidd a manwl i'r Senedd a'r pwyllgorau perthnasol ar y dyraniadau a wneir yn ystod y flwyddyn ym mlwyddyn ariannol 2021-22, er mwyn sicrhau y cynhelir gwaith craffu cadarn ar y swm sylweddol hwn o gyllid ychwanegol at ddibenion COVID-19.

**Ymateb: Derbyn**

Er gwaethaf amgylchiadau eithriadol y flwyddyn ariannol hon o ganlyniad i'r pandemig, rydym wedi cymryd camau breision yn ystod 2020-21 i wella tryloywder y broses o reoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn.

Yn wahanol i Lywodraeth y DU, hyd yma rydym wedi cymryd y cam digynsail o gyhoeddi tair Cyllideb Atodol yn ystod y flwyddyn er mwyn gwella tryloywder o ystyried maint y newidiadau i gyllideb Cymru, na welwyd mo'u tebyg o'r blaen. Cyhoeddwyd yr un fwyaf diweddar, sef y Drydedd Gyllideb Atodol, ar 16 Chwefror. Mae pob un o'r rhain wedi nodi'r defnydd a wnaed o'r cyllid mewn cronfeydd wrth gefn, gan gynnwys ailflaenoriaethu cyllidebau presennol, er mwyn lliniaru effeithiau'r pandemig.

Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid am y cyllid canlyniadol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael drwy gydol 2020-21 a goblygiadau cyllidol pandemig COVID-19. Mae'r Gweinidog hefyd wedi rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Senedd yn y siambr.

Ategir y dull gweithredu hwn gan ein hymrwymiadau i dryloywder a nodir yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb, sy'n sicrhau bod sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn parhau'n dryloyw o ran y cyllid sydd ar gael iddi a'r cyllid canlyniadol y mae'n ei gael. Byddwn yn cynnal y dull gweithredu hwn yn 2021-22.

**Argymhelliad 4.** Dylai holl Weinidogion Llywodraeth Cymru barhau i roi ystyriaeth i hawliau plant wrth dafoli'r dyraniadau a wnânt o fewn eu portffolio. Dylid ystyried yn barhaus y potensial ar gyfer dyraniadau ar y cyd ar draws portffolios i sicrhau effaith fwy pellgyrhaeddol i'r ystod eang o hawliau plant a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i egwyddorion CCUHP. Mae hawliau plant wrth wraidd ein dull o ymdrin â pholisi'r Llywodraeth a'n huchelgais i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn gwireddu ei botensial.

Mae'r paratoadau ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2021-22 wedi canolbwyntio ar barhau i gyflawni blaenoriaethau allweddol y Llywodraeth a sicrhau bod ein cynlluniau

gwariant yn cyd-fynd â'n rhaglen adfer, gan adeiladu ar y dull gweithredu trawslywodraethol a ddatblygodd ein blaenoriaethau ar gyfer ailadeiladu.

Yn ystod y paratoadau ar gyfer y gyllideb, bu'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn gweithio'n agos gyda phob Gweinidog er mwyn nodi ei flaenoriaethau a'r pwysau a wynebir ganddo. Er i bob Prif Grŵp Gwariant gael mwy o gyllid ar gyfer blaenoriaethau a nodwyd, gwnaeth y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd nifer o ddyraniadau penodol unigol i raglenni a blaenoriaethau penodol hefyd, er mwyn mabwysiadu dull mwy canolog o nodi cyfleoedd ar gyfer dyraniadau ar y cyd ar draws portffolios i gefnogi blaenoriaethau trawsbynciol. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn ogystal â chyllid i fynd i'r afael â thlodi.

Felly, y dull gweithredu a fabwysiadwyd yw defnyddio'r adnoddau sydd ar gael mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf posibl o ran cyflawni gwerthoedd y Llywodraeth, gan gydnabod y bydd angen inni barhau i ymdrin ag effaith y pandemig ochr yn ochr ag ysgogi newid tymor hwy.

## ARGYMHELLION ADDYSG (ADRAN 4)

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chonsortia, awdurdodau lleol ac ysgolion i barhau i ddatblygu dulliau wedi’u prisio sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda'r nod o gynorthwyo dysgwyr i ddal i fyny ar ôl pandemig COVID-19. Dylai'r gwaith hwn lywio ceisiadau'r Gweinidog am gyllid ychwanegol o gronfa COVID-19 Llywodraeth Cymru sydd heb ei dyrannu hyd yma ar gyfer 2021-22.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cynnal trafodaethau rheolaidd â chonsortia rhanbarthol, Estyn a rhanddeiliaid eraill ynghylch y ffordd orau o helpu ysgolion a lleoliadau i ddiwallu anghenion pob dysgwr wrth inni weithio drwy'r pandemig. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys adolygu tystiolaeth a nodi'r heriau sy'n wynebu dysgwyr gwahanol. Y camau nesaf fydd trefnu gweithgarwch ymgysylltu uniongyrchol ag ysgolion ledled Cymru a rhyngddynt yn ystod mis Mawrth drwy gyfres o ‘sgyrsiau’ proffesiynol. Caiff y digwyddiadau rhithwir byw hyn eu hwyluso gan ymarferwyr ar gyfer ymarferwyr er mwyn rhannu profiadau o ddarparu cyfleoedd dysgu yn ystod y pandemig. Bydd y ‘sgyrsiau’ hefyd yn darparu'r llwyfan i'r proffesiwn rannu'r hyn sy'n gweithio'n dda o ran diwallu anghenion dysgwyr, yn ogystal â'i alluogi i lywio dulliau polisi cenedlaethol a'r ffordd y dyrennir adnoddau.

**Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu adolygiad o effeithiolrwydd y gwahanol ddulliau o addysg ar-lein ac addysg gyfunol er mwyn llywio dyraniadau o gronfeydd COVID-19 Llywodraeth Cymru.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae hyn yn rhan o waith sydd eisoes yn mynd rhagddo gydag Estyn a thrwy amrywiaeth o brosiectau ymchwil a gynhelir gan Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, yn ogystal â chael ei lywio gan waith sy'n mynd rhagddo gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i feithrin dealltwriaeth o bolisi.

**Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o fanylion inni am y 1052 rôl y recriwtiwyd ar eu cyfer gan ddefnyddio cyllid y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am:**
**▪ sut y defnyddiwyd y cyfanswm sydd wedi'i wario hyd yma, yn benodol p'un a fu'r gwariant ar ddeiliaid swyddi newydd neu ddeiliaid swyddi presennol, ac**
**▪ o ble y recriwtiwyd y deiliaid swyddi newydd (er enghraifft, a fu patrwm amlwg lle gwelwyd athrawon wedi ymddeol neu athrawon cymwys yn cael eu denu yn ôl i'r proffesiwn?).**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth hon o ffurflenni sy'n cael eu coladu o adroddiadau ein Hawdurdodau Lleol (ALlau) ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran Recriwtio, Adfer a Chodi Safanau: y Rhaglen Dysgu Carlam. Mae'r wybodaeth rydym yn ei choladu, ei dadansoddi a'i chasglu ar hyn o bryd o ffurflenni ALlau yn cynnwys data ar y canlynol

- Nifer yr athrawon, cynorthwywyr addysgu a rolau eraill amser llawn newydd;
- Nifer y deiliaid swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl) o benodiadau rhan amser ar gyfer athrawon, cynorthwywyr addysgu a rolau eraill;
- Nifer y deiliaid swyddi CALl o oriau cynyddol ar gyfer athrawon, cynorthwywyr addysgu a rolau eraill;

Mae'r manylion pellach y gofynnwyd amdanynt, yn benodol o ran "o ble y recriwtiwyd y deiliaid swyddi newydd" y tu hwnt i gwmpas y wybodaeth y gofynnir i ALlau amdani yn eu ffurflenni ar hyn o bryd.  Fodd bynnag, byddwn yn gweithio gyda'n Hawdurdodau Lleol partner i drafod ymarferoldeb casglu'r manylion hyn, gan ystyried yr amodau a'r amgylchiadau gweithredu presennol, a llunio amserlen ar gyfer cyflwyno'r data hynny.

Efallai y bydd y pwyllgor yn awyddus i ystyried rhai o'r enghreifftiau o astudiaethau achos o'r ffordd y mae ysgolion wedi bod yn defnyddio cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau sydd i'w gweld ar hyn o bryd ar sianeli Addysg Llywodraeth Cymru. Yn ddiweddar, rydym wedi bod yn tynnu sylw at y ffordd y mae rhai ysgolion wedi bod yn defnyddio'r £29 miliwn i ddarparu mwy o oriau addysgu yn ystod pandemig COVID-19 drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a'n tudalen Addysg Cymru ar Facebook.

Mae nifer o ysgolion yn cael sylw, megis Ysgol Uwchradd Llanidloes sy'n sôn am gyflogi tiwtoriaid Ffiseg ychwanegol er mwyn cefnogi dysgwyr blwyddyn arholiadau drwy gynnig sesiynau tiwtora ar-lein. Mae Ysgol Ystalyfera hefyd yn cael sylw, ac mae'n sôn am y ffordd y mae wedi defnyddio ei chyllid i ariannu tîm llesiant, gan gynnwys gweithwyr ieuenctid a swyddogion cynhwysiant, er mwyn cefnogi lles emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion. Mae'n dangos y modd y mae wedi llwyddo i greu darpariaeth ychwanegol o ansawdd uchel sy'n golygu bod plant wedi gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn ystod y cyfyngiadau symud.

**Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data tryloyw a rheolaidd yn barhaus ynghylch gwariant ar y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.**

**Ymateb: Derbyn**

Dylai pob penderfyniad ynghylch cyllido fod yn dryloyw ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r egwyddorion sy'n sail i'r cyllid, yn ogystal â bod yn dryloyw ac yn agored o ran y fethodoleg gyllido ar gyfer dyrannu'r arian grant. Rydym hefyd yn coladu (fel y nodir yn yr ymateb i Argymhelliad 8) data ar gynnydd tuag at gyflawni dibenion y grant.

Mae'r holl gyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 wedi'i ddyrannu i Awdurdodau Lleol i'w drosglwyddo i ysgolion, a chaiff y dyraniadau ar gyfer 2021-22 eu gwneud cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn ariannol newydd er mwyn cyflawni'r ymrwymiad i gyllido blwyddyn academaidd gyfan 2020/21. Yr Awdurdodau Lleol, fel y derbynwyr/deiliaid y grant, sy'n gyfrifol am fonitro'r modd y caiff y grant ei wario a sicrhau y caiff ei wario.

**Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cyflym o'r prif bwyntiau gwariant o ran y Grant Datblygu Disgyblion yn 2020-21 i asesu i ba raddau y gellir defnyddio cyllid yn unol â Chanllawiau'r grant hwnnw, o ystyried y cyfyngiadau corfforol yn sgil y pandemig. Dylai canfyddiadau'r adolygiad hwn bennu a oes angen unrhyw newidiadau interim ar gyfer y flwyddyn 2021-22.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae'r cyllid ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion ar ei lefel uchaf ers cyflwyno'r grant, ond rydym yn cydnabod yr effaith y mae'r pandemig yn ei chael ar ein hysgolion a'u hawdurdodau lleol a'r pwysau sylweddol y mae’r gweithlu wedi ei wynebu yn ystod y 12 mis diwethaf.Ar yr adeg hon, credwn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn hyblyg o ran ein hymateb, ac rydym yn cydnabod mai staff mewn ysgolion fydd yn y sefyllfa orau i ddyrannu cyllid ar sail gwybodaeth ac anghenion lleol. Dyna pam rydym wedi gwneud telerau ac amodau'r grant yn fwy hyblyg yn 2020-21 er mwyn sicrhau y caiff cyllid ei ddefnyddio'n briodol ac yn effeithiol tra bydd y pandemig yn parhau i darfu ar addysg.

Bydd y dull gweithredu hwn yn parhau ar gyfer 2021-22, ac rydym yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr rhanbarthol y Grant Datblygu Disgyblion i nodi'r meysydd hynny lle y gall cyllid gael yr effaith fwyaf yng nghyd-destun ein gwaith adfer ar ôl pandemig COVID-19. Bydd hyn yn cynnwys ystyried cyfeiriad strategol y Grant Datblygu Disgyblion yn y dyfodol, yng nghyd-destun argymhellion yr adroddiad ar yr Adolygiad o Wariant Ysgolion yng Nghymru, yn enwedig blaenoriaethu cyllid ychwanegol ar gyfer yr ysgolion mwyaf difreintiedig; a gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau fformiwlâu cyllido ysgolion mwy cyson a thryloyw.

Nid ydym yn credu y byddai adolygu'r Grant Datblygu Disgyblion yn fuddiol ar y cam hwn o'r frwydr yn erbyn y pandemig. Fodd bynnag, rydym yn cysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid i weld sut mae'r grant yn cael ei ddefnyddio. Byddwn yn ymrwymo i adolygu'r defnydd a wneir o'r Grant Datblygu Disgyblion fel rhan o ddyraniadau 2021-22, ac ystyried materion ehangach mewn perthynas ag adfer ar ôl pandemig COVID-19.

Rydym yn cydnabod bod angen rhoi mwy o gymorth i'r rhai y mae angen help arnynt ac rydym wedi dyrannu cyllid ychwanegol i'n cyllidebau seiliedig ar alw, megis y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad, er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael. Ar gyfer 2021-22, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu mwy o gymorth ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad, gan gynyddu cyfanswm y cyllid i fwy na £10m. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn ein galluogi i gefnogi mwy o deuluoedd y mae'r pandemig yn effeithio arnynt ac ymestyn y grant i gynnwys rhagor o grwpiau blwyddyn. Mae telerau ac amodau'r grant hefyd wedi'u hymestyn er mwyn darparu ar gyfer prynu cyfarpar TG, er mwyn cefnogi dysgu cyfunol/o bell. Mae'r cyllid ychwanegol ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad yn cynyddu Llinell Gwariant yn y Gyllideb y Grant Datblygu Disgyblion i fwy na £113m ar gyfer 2021-22, gan gyflawni ein hymrwymiad i ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion.

**Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn defnyddio'r holl ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i lywio ei hunion ddyraniadau i gefnogi’r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm er mwyn sefydlu'r gwir gost ar gyfer 2021-22 ac ar gyfer y dyfodol.**

**Ymateb: Derbyn**

Gwnaethom gyhoeddi *Cwricwlwm i Gymru: Cynllun Gweithredu* ym mis Ionawr, gan nodi ein dull o werthuso'r cwricwlwm newydd. Mae'r dull hwnnw'n cael ei lywio gan dair egwyddor, gan gynnwys sicrhau y caiff nifer o fathau a ffynonellau o dystiolaeth o bob rhan o'r dirwedd addysg (ac o sawl safbwynt) eu cyfuno i roi darlun cytbwys a chynhwysol. Ein hasesiad o werthusadwyedd yw cam cyntaf y dull gweithredu hwn; cyhoeddwyd y gwahoddiad i dendro ar ei gyfer ym mis Ionawr.

Caiff yr asesiad o werthusadwyedd ei gynnal drwy gydol 2021-22 a bydd yn cynnwys gwaith i ddeall y pellter y mae'n rhaid i bob haen o'r system ei deithio, y cymorth sydd ei angen ar ysgolion a sut y gall Llywodraeth Cymru a'r haen ganol ddarparu'r cymorth hwnnw. Bydd hefyd yn cynnwys archwiliad o ddata a thystiolaeth er mwyn deall pa wybodaeth sydd gennym, ac y bydd ei hangen arnom, i werthuso llwyddiant. Bydd allbwn y gwaith hwn yn llywio penderfyniadau ynghylch cyllido, sy'n parhau i gael eu mapio gan swyddogion er mwyn cofnodi costau uniongyrchol diwygio'r cwricwlwm.

**Argymhelliad 11. Erbyn diwedd y Pumed Senedd, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r dull dymunol ar gyfer gweithredu argymhellion ein hadroddiad ar ariannu ysgolion a chanfyddiadau adolygiad Sibieta. Byddai hyn yn gosod sylfaen i'r llywodraeth nesaf weithredu'n gyflym.**

**Ymateb: Derbyn**

Yn ddiau, mae adroddiad y Pwyllgor a'r adolygiad dilynol o wariant ysgolion wedi tynnu sylw at gymhlethdod y system gyllido a'r gwaith y mae angen ei wneud i sicrhau bod y system hon nid yn unig yn fwy effeithlon ond hefyd yn fwy tryloyw. Mae'r adolygiad hefyd yn cydnabod manteision system mor gymhleth, a nodir bod ymreolaeth ac annibyniaeth awdurdodau lleol ac ysgolion yn un o gryfderau'r system bresennol, sy'n ei gwneud yn bosibl canolbwyntio gwariant ar ddiwallu anghenion lleol a sicrhau'r canlyniadau gorau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ar ei hymateb i'r argymhellion cyn diwedd tymor y Senedd.

**Argymhelliad 12. Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o fanylion inni ar natur y gronfa wrth gefn o £7 miliwn a symudwyd i ddarpariaeth addysg bellach a chweched dosbarth, gan gynnwys gwybodaeth am faint o flynyddoedd ariannol y cadwyd yr arian ar ei gyfer, a yw wedi cael ei ddefnyddio yn y gorffennol diweddar ac at ba ddiben, ac os nad yw wedi cael ei ddefnyddio, o**

**ystyried y pwysau costau ar y sector addysg ôl-16, beth yw'r rhesymau dros beidio ei ddefnyddio.**

**Ymateb: Derbyn**

Fel gwariant seiliedig ar alw, caiff cronfa wrth gefn ei chynnwys yn y cymorth a roddir i fyfyrwyr Addysg Uwch (AU) bob blwyddyn. Tan y bydd myfyrwyr yn ymuno â'r sector AU ac yn hawlio cymorth, dim ond rhagamcanion o wariant y gellir eu llunio, yn seiliedig ar nifer disgwyliedig y myfyrwyr a'u hymddygiadau. Gan fod nifer y myfyrwyr yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, mae angen cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth wrth gefn yn y gofyniad cyllidebol rhagamcanol er mwyn sicrhau bod cyllideb ddigonol ar gael, os canfyddir bod y model rhagamcanol yn danamcangyfrif. Mae maint y gronfa wrth gefn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn seiliedig ar nifer y myfyrwyr a ddisgwylir, a byddai unrhyw ansicrwydd, er enghraifft polisi newydd yn cael ei roi ar waith, yn arwain at fwy o ansicrwydd ynghylch tueddiadau hanesyddol i'w defnyddio mewn blynyddoedd i ddod. Caiff maint y gronfa wrth gefn ei adolygu drwy gydol y flwyddyn wrth i'r data gael eu cyflwyno gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, gan roi rhagamcan mwy cywir ar gyfer y flwyddyn ariannol wrth i'r flwyddyn academaidd fynd rhagddi. Argymhellir bod data'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ond yn ddigon cadarn i'w defnyddio i adolygu rhagamcanion rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr ac, felly, dim ond o'r Flwyddyn Newydd ymlaen y gellir penderfynu'n derfynol ar gronfeydd wrth gefn a'u gwireddu, os bydd angen.

Mae'r swm hwn o £7m yn gronfa wrth gefn sy'n cyfateb i 1.4% o gyfanswm y gyllideb ar gyfer y Cam Gweithredu cymorth i ddysgwyr ôl-16 ar gyfer 2021-22.

**Argymhelliad 13. Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion i ni am yr hyn sydd wedi ysgogi'r newid demograffig a ddisgwylir dros y flwyddyn ariannol nesaf sydd wedi arwain at y cynnydd mewn dyraniad gwerth £27.1 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22, ynghyd â graddfa a natur y newid demograffig, a manylion o ran pa gyfran o'r cynnydd mewn cyllid sydd ar gyfer y newid demograffig hwn, a pha gyfran sy'n cynrychioli'r cynnydd yn lefel y cyllid fesul dysgwr.**

**Ymateb: Derbyn**

Yn y fethodoleg gyllido flaenorol (ar gais Colegau Cymru er mwyn cynnal sefydlogrwydd o fewn colegau), cafodd newid demograffig ei ddileu o'r fformiwla. Ers hynny, mae Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) wedi cynnal adolygiad o drosolwg Llywodraeth Cymru o Addysg Bellach (AB) ac wedi argymell y dylem ddatblygu 'mecanwaith sy'n cysylltu cyllid yn agosach â'r galw tebygol am addysg bellach ym

mhob ardal, gan gydnabod yr angen i wneud newidiadau sylweddol yn raddol, er mwyn rheoli’r effaith ariannol ar golegau unigol.’

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym wedi symud tuag at fethodoleg sy'n:

- cyllido yn seiliedig ar nifer disgwyliedig y dysgwyr amser llawn ym mhob Sefydliad AB;
- eithaf tebyg i'r fethodoleg sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dyraniadau cyllid Chweched Dosbarth Awdurdodau Lleol – er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhwng y ddau sector;
- ystyried demograffeg sy'n newid yn y garfan 16-19[1] bob blwyddyn;
- defnyddio Cyfartaledd treigl tair blynedd mewn niferoedd rhagamcanol er mwyn rhoi rhywfaint o sefydlogrwydd ac osgoi cynnydd neu ostyngiad sylweddol mewn cyllid o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r dull hwn o weithredu yn rhoi argymhelliad SAC ar waith ac mae o fudd i'r colegau hynny sy'n gweld cynnydd yn y galw am eu cyrsiau gan bobl ifanc 16-19 oed ar draul y rhai y mae eu demograffeg yn lleihau.

Wrth gyfrifo twf demograffig, yr elfen arall i'w hystyried yw gwerth rhaglen cyfartalog. Cyfrifir gwerth rhaglen cyfartalog gan ddefnyddio tystiolaeth o gymysgedd gweithgareddau cyfartalog pob sefydliad a gall gynyddu a gostwng hefyd yn dibynnu ar y cymysgedd o weithgareddau a ddarperir, gyda chyfanswm y newid demograffig yn cyfateb i nifer disgwyliedig y dysgwyr wedi'i luosi â gwerth rhaglen cyfartalog.

O ran y £27m a ddyrannwyd, defnyddiwyd tua £7m i gyfrif am dwf demograffeg yn y flwyddyn academaidd flaenorol (gyda thrydydd tymor blwyddyn academaidd 2020-21 yn cael ei ariannu o gyllideb blwyddyn ariannol 2021-22). Cyfrifir am y gweddill gan newidiadau i'r cyfrifiad demograffig fel uchod.

Yn unol â'r cynnydd o 3.8% a ganiatawyd ar gyfer Awdurdodau Lleol, rydym wedi cynyddu'r cyllid (ar sail tebyg am debyg) i golegau a'r chweched dosbarth 3.8%.

**Argymhelliad 14. Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o fanylion inni am y cyhoeddiad diweddar o £40 miliwn ar gyfer addysg uwch i'w ddarparu ar gyfer myfyrwyr sydd mewn caledi ariannol, gan gynnwys yr amserlen a fwriedir a’r pwrpas a fwriedir.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r cyllid wedi'i roi i CCAUC er mwyn iddo ei ddosbarthu i brifysgolion a fydd, yn eu tro, yn blaenoriaethu cymorth i'r myfyrwyr mwyaf anghenus, yn ogystal ag

[1] I'r garfan 16-18 y mae'r brif rwymedigaeth statudol. Yn draddodiadol, mae Gweinidogion wedi ymestyn y rhwymedigaeth hon i gynnwys dysgwyr 19 oed er mwyn ystyried y rhai sy'n gadael y chweched dosbarth ar ôl blwyddyn.

atgyfnerthu gwasanaethau cyngor a chymorth i fyfyrwyr. Bwriedir i'r cyllid liniaru caledi myfyrwyr a materion yn ymwneud â llesiant sydd wedi deillio o'r pandemig. Fel y nodwyd yn y llythyr cylch gwaith wedi'i ddiweddaru a anfonwyd i CCAUC ym mis Ionawr, dyrannwyd y cyllid ar y sail y byddai'n cael ei ddefnyddio at y dibenion canlynol:

- mynd i'r afael â chaledi sylweddol ymhlith myfyrwyr sy'n deillio o'r pandemig (o leiaf 80% o'r £40m);
- darparu gwasanaethau cyngor a chymorth i fyfyrwyr (hyd at 20% o'r £40m).

Gan ein bod yn gofyn i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr astudio gartref ar hyn o bryd, caiff y cyllid ei ddefnyddio i fynd i'r afael â materion megis ‘tlodi digidol’ ymhlith myfyrwyr, er mwyn galluogi gwell mynediad i ddysgu ar-lein, costau yr eir iddynt oherwydd yr angen i hunanynysu a chostau byw, gan gynnwys llety.

Mae'r cyllid yn ychwanegol at y swm o fwy na £40 miliwn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu er mwyn helpu prifysgolion yn y flwyddyn ariannol hon, sydd wedi cynnwys £10m tuag at galedi myfyrwyr, cymorth iechyd meddwl ac undebau myfyrwyr.

Disgwylir i brifysgolion gwblhau asesiad rhesymol o galedi cyn dosbarthu arian. Mae CCAUC wedi nodi'n glir fod disgwyl i sefydliadau ddyrannu'r cyllid hwn i fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn academaidd hon, a heb oedi gormodol. Disgwylir i sefydliadau gyflwyno adroddiad i CCAUC bob mis yn nodi sut maent wedi defnyddio’r cyllid. Bydd CCAUC yn cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru erbyn yr haf ar effaith y cyllid, ac mae hefyd yn bwriadu cyhoeddi dogfen astudiaeth achos bryd hynny.

**Argymhelliad 15. Bod y Pwyllgor sy’n ein dilyn ni yn y Chweched Senedd yn monitro’r dyraniadau i gefnogi iechyd meddwl myfyrwyr yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, pan gaiff cyllid addysg uwch ac addysg bellach ei ddosbarthu i sefydliadau.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn ymwybodol y bydd angen monitro effaith y pandemig ar iechyd a lles myfyrwyr yn y tymor hwy, a byddem yn disgwyl parhau i gydgysylltu â CCAUC a sefydliadau AU ac AB er mwyn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Er y gofynnwyd i CCAUC gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mawrth 2021 ar y ffordd y mae cyllid ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl a lles wedi'i ddefnyddio, byddwn yn disgwyl parhau i weithio gyda sefydliadau i asesu effaith ymyriadau fel rhan o'u gwaith ehangach i fynd i'r afael â'r materion pwysig hyn.

Gwnaethom ddyrannu £2m i gefnogi mentrau iechyd meddwl a lles yn y sector AB ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 er mwyn cefnogi dull system gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a meithrin gallu i gefnogi llesiant drwy daith gyfan y dysgwyr.

Dyrannwyd y cyllid er mwyn darparu hyfforddiant iechyd meddwl o ansawdd uchel i staff ac er mwyn i sefydliadau addysg bellach ddatblygu eu strategaethau iechyd meddwl a lles. Bwriedir iddo adeiladu ar brosiectau blaenorol a helpu i sefydlu dull cydlynol o ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl ym mhob rhan o'r sector. Mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau Cenedlaethol, Cydweithredol a Sefydliadol.

Mae dau brosiect Cenedlaethol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae'r prosiect cyntaf yn cynnwys datblygu adnoddau ymarferol er mwyn helpu colegau i nodi achosion o gamddefnyddio sylweddau a mynd i'r afael â nhw, yn unol â Chynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau. Nod yr ail brosiect yw creu sector AB yng Nghymru sydd wedi'i lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod drwy ddatblygu gwybodaeth am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a sgiliau yn y maes hwn, er mwyn helpu sefydliadau i fabwysiadu dull sefydliad cyfan o ymdrin â lles, meithrin gwydnwch ac ymgorffori arferion sy'n ystyriol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod/Trawma.

Mae 13 o brosiectau sefydliadol yn cael eu cynnal gan golegau AB yng Nghymru. Mae'r prosiectau hyn yn adeiladu ar y sgiliau a'r adnoddau mewn colegau unigol i gefnogi iechyd meddwl a lles staff a dysgwyr. Mae'r prosiectau yn canolbwyntio ar lunio strategaeth llesiant a'i chefnogi, gan sefydlu swyddi llesiant a gwella sgiliau staff mewn hyfforddiant iechyd meddwl a gwydnwch.

Mae'r elfen Gydweithredol wedi galluogi colegau i ddod ynghyd i rannu arferion gorau a datblygu strategaethau newydd i reoli problemau iechyd meddwl ymhlith staff a dysgwyr.

Mae prosiectau cydweithredol yn cynnwys darparu hyfforddiant i ymarferwyr ar ddarpariaethau iechyd meddwl er mwyn creu cymunedau cadarn, ymchwil i arferion sy'n ystyriol o drawma er mwyn datblygu adnodd nodi'n gynnar, a defnyddio hyfforddwyr bugeiliol a gwasanaeth cwnsela y tu allan i'r coleg.

Cymeradwywyd £2m ychwanegol ar gyfer 2021-22 a fydd yn helpu i gynnal partneriaethau, annog cydweithredu pellach ac ymgorffori gwasanaethau cymorth llesiant ym mhob sector ar gyfer dysgwyr ac ymarferwyr.

**IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A PHLANT (ADRAN 5)**

**Argymhelliad 16. Dylai'r Pwyllgor sy'n ein dilyn ni fonitro'r ystadegau iechyd sydd wedi'u cyhoeddi a all ddangos y graddau y mae Llywodraeth Cymru wedi llwyddo wrth ddiwallu anghenion iechyd plant mewn ardaloedd difreintiedig.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ystadegol y gellir eu defnyddio i ddangos cynnydd o ran gwella canlyniadau iechyd plant mewn ardaloedd difreintiedig. Rhoddir enghreifftiau isod:

- Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad ar y Strategaeth Tlodi Plant bob tair blynedd. Cyhoeddwyd yr un diwethaf yn 2019 a chyhoeddir yr un nesaf yn 2022. https://llyw.cymru/strategaeth-tlodi-plant-adroddiad-cynnydd-2019
- Yn 2018, canolbwyntiodd Llesiant Cymru ar blant. Er nad oes unrhyw gynlluniau i wneud hyn eto ar hyn o bryd, caiff rhywfaint o'r data ynddo eu diweddaru'n eithaf rheolaidd. https://llyw.cymru/llesiant-cymru-2018
- Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yn cynnwys data dangosydd yn ôl degradd amddifadedd, y mae rhywfaint ohonynt yn ymwneud ag iechyd plant, e.e. pwysau geni isel a gordewdra.
- Mae tudalen Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gydraddoldebau hefyd yn darparu amrywiaeth o ddata sy'n rhoi gwybodaeth am blant mewn ardaloedd difreintiedig: http://www.arsyllfaiechydcyhoedduscymru.wales.nhs.uk/anghydraddoldeb-ac-annhegwch

Mae data a gyhoeddir yn fwy rheolaidd yn cynnwys gwybodaeth am Raglen Plant Iach Cymru yn ogystal â Dechrau'n Deg, sy'n dangos nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau mewn ardaloedd Dechrau'n Deg (a ddiffiniwyd yn wreiddiol gan ddefnyddio MALlC).

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn edrych ar y data sydd ar gael yn rheolaidd er mwyn deall yr effaith y mae polisïau yn ei chael o ran gwella canlyniadau iechyd plant, yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig. Er enghraifft, mae'r tîm polisi yn craffu ar ddata Plant Iach Cymru ac yn ymgysylltu â Bwrdd y Rhaglen a byrddau iechyd er mwyn deall cydymffurfiaeth â'r cysylltiadau gofynnol o dan y Rhaglen.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod anghenion iechyd arferol plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried ochr yn ochr ag anghenion oedolion. Rhaid i'r Llywodraeth ymrwymo i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cyfran deg o gyllid pan fydd y Gweinidog yn cyhoeddi ei gynlluniau gwariant i fynd i'r afael â'r ôl-

groniadau mewn gofal iechyd arferol ym mis Ebrill 2022. Dylid cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ochr yn ochr â'r cynllun hwn.

**Ymateb: Derbyn**

Caiff cyllidebau pediatrig cyffredinol eu dirprwyo i fyrddau iechyd er mwyn asesu anghenion a chomisiynu a darparu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hyn a aseswyd o fewn y gofynion clinigol a'r targedau cenedlaethol. Dim ond dwy linell gwariant pediatrig ar wahân sydd yng nghyllidebau'r rhaglenni cenedlaethol, sef CAMHS a gwasanaethau newyddenedigol; mae pob cyllideb arall o dan linellau cyllidebol mwy cyffredinol, mwy o faint.

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Health-Finance/NHS-Programme-Budget/nhsexpenditure-by-budgetcategory-year

Er y gellir monitro a chostio gwasanaethau pediatrig arbenigol drwy Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru, drwy eu contractau unigol erys cryn dipyn o weithgarwch arferol sy'n cael ei gyflawni'n lleol ym mhob bwrdd iechyd mewn gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd.

Mae'r ddolen isod yn nodi ystadegau'r gweithlu meddygol a deintyddol yn ôl gwasanaethau pediatrig-benodol, gwasanaethau Cardiaidd, Deintyddiaeth, llawfeddygaeth a phediatreg (gyffredinol):

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Staff/Medical-and-Dental-Staff/hospitalmedicalanddentalstaff-by-grade-year

Mae yna staff gofal iechyd penodedig ym mhob bwrdd iechyd sy'n benodol i bediatreg sy'n darparu gwasanaethau pediatreg penodol. Mae'r rhain yn eu cefnogi hefyd gan arbenigeddau eraill megis ENT, dermatoleg ac eraill sy'n darparu gwasanaethau pediatrig fel rhan o'u gwasanaeth cyfan. Nid yw'r model darparu gwasanaethau cymysg hwn yn darparu ar gyfer llinellau gwariant unigol clir sydd ond yn ymwneud â gwasanaethau pediatrig ar lefel genedlaethol.

Bydd gan fyrddau iechyd gyllidebau lleol ar gyfer eu hunedau gwasanaethau pediatrig-benodol a fydd yn rhan o'u cyllideb gyffredinol, ond nid yw hyn ar gael mewn llinell ar wahân yn llinell cyllideb y rhaglen genedlaethol.

Ar gyfer gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio a gwasanaethau gofal heb ei drefnu, nid yw perfformiad cenedlaethol yn cael ei ddadansoddi yn ôl oedran ar hyn o bryd am fod mynediad at wasanaethau yn seiliedig ar angen clinigol yn erbyn yr un targedau mynediad.

Er mwyn ategu tystiolaeth o degwch o ran adferiad, bydd swyddogion yn ceisio dadansoddi rhestrau aros a data gweithgarwch yn ôl pobl dan 18 oed a phobl dros 18 oed er mwyn asesu a yw adferiad yn erbyn haenu risg yn deg.

Mae grŵp ffocws pediatrig penodol wedi'i sefydlu er mwyn trafod anghenion y gwasanaeth er mwyn helpu i ailgynllunio gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio yn y dyfodol. Megis dechrau y mae'r grŵp hwn ac nid yw cwmpas a natur y gwaith wedi'i gadarnhau eto. Bydd gwaith y grŵp hwn hefyd yn bwydo i mewn i'r cynllun adfer ar ôl gofal wedi'i gynllunio cenedlaethol er mwyn sicrhau y caiff anghenion ar gyfer adferiad pediatrig eu hasesu'n gyfartal a'u bod yn rhan o'r atebion cenedlaethol.

**Gwasanaethau pediatrig arbenigol**

Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru sy'n gyfrifol am gydgynllunio a chomisiynu Gwasanaethau Arbenigol a Thrydyddol ar ran byrddau iechyd lleol yng Nghymru. Caiff gwasanaethau arbenigol eu comisiynu gan ddarparwyr sydd â'r profiad a'r arbenigedd priodol; sydd â'r gallu i ddarparu gwasanaeth cadarn a chynaliadwy o ansawdd uchel; sy'n ddiogel i gleifion; sy'n gosteffeithiol i GIG Cymru ac sy'n sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau ar gyfer cleifion yng Nghymru. Lluniwyd manylebau gwasanaethau sy'n diffinio'n glir yr hyn y mae Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru yn disgwyl i ddarparwyr ei gynnig. O ran gwasanaethau pediatrig, mae'r Pwyllgor yn comisiynu gwasanaethau mewn perthynas â'r canlynol:

- Gwasanaethau Gofal Dwys Newyddenedigol a gwasanaethau dibyniaeth fawr
- Gofal dwys pediatrig a chasglu
- Neffroleg bediatrig, gan gynnwys amnewid arennol
- Gastroenteroleg/heptoleg/cymorth maeth pediatrig
- Oncoleg bediatrig
- Hematoleg bediatrig
- Imiwnoleg bediatrig
- Endocrinoleg bediatrig
- Rhewmatoleg bediatrig
- Cardioleg bediatrig
- Dermatoleg arbenigol bediatrig
- Llawdriniaeth bediatrig
- Llosgiadau a llawdriniaeth blastig bediatrig
- Gwasanaeth Clefydau Metabolaidd Etifeddol (IMD) (Oedolion a Phediatrig)
- Iechyd Menywod, Plant a Phobl Ifanc
- Meddygaeth y ffetws
- Mewnblaniadau cochlea
- Gwefus a thaflod hollt
- Cludiant Newyddenedigol

Cyfanswm gwerth y contractau ar gyfer gwasanaethau pediatrig a roddwyd i gyflenwyr yng Nghymru (h.y. byrddau iechyd) yw £35,536,000. Cyfanswm gwerth y contractau ar gyfer gwasanaethau pediatrig a roddwyd i gyflenwyr yn Lloegr (Ymddiriedolaethau NHS England) yw £30,969,000. Telir cyfanswm o £28,102,000 i gyflenwyr gwasanaethau newyddenedigol yng Nghymru.
Mae swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â Phwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru er mwyn sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw faterion a nodir yn gyflym.

**Cyllid Iechyd Meddwl**

Mae swyddogion eisoes yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfran y cyllid iechyd meddwl a dargedir yn benodol at blant a phobl ifanc, yn ogystal â'r cyfrannau (er y cânt eu hamcangyfrif weithiau) ar gyfer plant a phobl ifanc yn ein meysydd cyllido eraill, e.e. Cyllid Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Cyllid Gofal Integredig. Bydd y wybodaeth hon yn parhau i fod ar gael i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

(https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-04/cyllidebau-rhaglenni-gwariant-y-gig-ebrill-2018-i-mawrth-2019-073.pdf)

Darperir gwybodaeth ar StatsCymru sy'n gwahaniaethu rhwng CAMHS gofal sylfaenol ac eilaidd Byrddau Iechyd Lleol:

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Health-Finance/NHS-Programme-Budget/nhsexpenditure-by-budgetcategory-year

**Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**
Isod ceir enghreifftiau o dri asesiad o'r effaith ar hawliau plant a luniwyd eisoes. Caiff rhagor o asesiadau o'r effaith ar hawliau plant eu llunio wrth i'r gwasanaeth iechyd symud tuag at adfer ar ôl pandemig COVID-19.

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-01/asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant-fframwaith-cynllunio-blynyddol-gig-cymru-2021-2022.pdf
https://llyw.cymru/cynllun-cyflawni-law-yn-llaw-iechyd-meddwl-2019-i-2022-asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant
https://llyw.cymru/asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant-rheoliadau-ynghylch-cau-safleoedd-ysgolion

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y graddau y mae rhaglen Plant Iach Cymru wedi cyflawni ei chysylltiadau sgrinio cyffredinol wyneb yn wyneb ledled Cymru rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2020. Yn yr achosion hynny lle nad yw cysylltiadau sgrinio wedi cael eu cyflawni, dylai

Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau i wneud hynny ochr yn ochr ag unrhyw ddyraniadau ariannol sydd eu hangen.

**Ymateb: Derbyn**

Mae plant, teuluoedd a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi yn wynebu heriau digynsail yn sgil pandemig y Coronafeirws. Mae iechyd a llesiant plant, yn arbennig yn ystod y pandemig hwn, wedi parhau i fod wrth wraidd polisi, gan sicrhau eu bod yn cael eu gweld, eu bod yn ddiogel ac y gwrandewir arnynt. Mae'r gwasanaeth Ymweliadau Iechyd yn darparu gwasanaethau cymorth ymyriadau cynnar ac atal.

Mae amrywiaeth o gysylltiadau allweddol wedi'u cynnal fel rhan o Raglen Plant Iach Cymru er mwyn sicrhau y caiff pob teulu ei gefnogi yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r cysylltiadau ar ôl 10-14 diwrnod, yr archwiliad corfforol gofal sylfaenol ar ôl 6 wythnos a'r cysylltiadau ar ôl chwe mis wedi parhau i fod yn hanfodol ac maent yn parhau i gael eu cynnig i bob teulu naill ai drwy ymweliad â'r cartref, mewn canolfan neu dros y ffôn. Caiff penderfyniadau ynghylch p'un a oes angen cysylltu â'r cartref eu gwneud gan ddefnyddio barn broffesiynol yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael am amgylchiadau'r teulu.

At hynny, mae'r ystod lawn o gysylltiadau Rhaglen Plant Iach Cymru wedi'u cynnig i bob teulu y nodwyd bod ganddo anghenion diogelu neu anghenion ychwanegol/dwys. Rydym yn disgwyl i bob bwrdd iechyd gynnal asesiad risg ar gyfer pob llwyth achosion er mwyn nodi teuluoedd sy'n agored i niwed a theuluoedd sy'n wynebu risg. Gall unrhyw deulu sy'n pryderu ynghylch ei blentyn gysylltu â'i ymwelydd iechyd i gael cyngor.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Canllawiau ar gyfer Dechrau'n Deg ac Ymwelwyr Iechyd Cyffredinol er mwyn rhoi eglurder ynghylch y gwasanaethau sy'n dal i fod yn hanfodol fel rhan o Raglen Plant Iach Cymru. Yn ddiau, mae'r pandemig yn parhau i gael effaith sylweddol iawn ar allu byrddau iechyd i gynnig yr ystod lawn o wasanaethau ac, felly, mae'n briodol sicrhau y caiff ein canllawiau eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, lle y bo angen. Mae'r canllawiau yn nodi'r ddarpariaeth ofynnol ar gyfer cysylltiadau a modelau darparu gwasanaethau Rhaglen Plant Iach Cymru.

Rydym wedi ysgrifennu at fyrddau iechyd er mwyn nodi ei bod yn bosibl, wrth i'r sefyllfa barhau i ddatblygu, y gallant adfer cysylltiadau ychwanegol ar ben y gofynion sylfaenol a nodir yn y canllawiau a dechrau adfer yr ystod lawn arferol o gysylltiadau a ddarperir gan Raglen Plant Iach Cymru. Os felly, rydym yn disgwyl i fyrddau iechyd gynllunio gofynion y gweithlu yn unol â hynny.

Cyhoeddir ystadegau mewn perthynas â Rhaglen Plant Iach Cymru bob chwarter, ond mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar yr amserlen hon. Cyhoeddwyd y swp nesaf o ddata, ar gyfer y ddau chwarter rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020 a mis Gorffennaf a mis Medi 2020, ym mis Chwefror.

**Argymhelliad 19.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth fanwl i ni am y broses werthuso ar gyfer y dull ysgol gyfan a phrosiect Mewngymorth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed, gan gynnwys amserlenni.

**Ymateb: Derbyn**

**Gwerthuso'r Dull Ysgol Gyfan**

Mae Llywodraeth Cymru wedi contractio Prifysgol Caerdydd i gynnal asesiad o werthusadwyedd ar gyfer y Dull Ysgol Gyfan. Nod y gwaith ymchwil hwn yw datblygu damcaniaeth newid weithredol ar gyfer y dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a darparu argymhellion ar gyfer fframwaith gwerthuso i'w ddefnyddio ar gyfer gwaith ymchwil yn y dyfodol gan bartneriaid academaidd a phartneriaid eraill. Dyma'r cwestiynau ymchwil allweddol:

- Pa agweddau ar y system ysgolion bresennol a gaiff eu newid neu y bydd angen eu newid yn sgil cyflwyno'r dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl?
- Ble mae dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl ar siart lif ddatblygiadol y rhaglen ymyrraeth gyffredinol a rhaglenni polisi cysylltiedig, megis ‘Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol’?
- Pa raglenni presennol ac arfaethedig eraill sy'n berthnasol i'r dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a sut y bydd y model newydd yn effeithio arnynt?
- Pa amrywiadau o effeithiau damcaniaethol y dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl sy'n debygol ar draws lleoliadau a phoblogaethau, a beth yw rôl cyd-destun yn yr amrywiadau hyn?
- Pa gyfranogwyr a chydberthnasau sydd bwysicaf ar gyfer cyflwyno dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl?

Bydd y cwestiynau ymchwil canlynol yn sail i'r asesiad o werthusadwyedd, yn unol â nodau manyleb y gwasanaeth:

- Sut y bydd gwerthusiad o'r rhaglen hon yn effeithio ar benderfyniadau polisi a sut y gellir cynyddu defnyddioldeb gwaith gwerthuso i'r eithaf?
- Pa lefel o waith gwerthuso rhaglenni sy'n ymarferol ac yn ddymunol o fewn yr amser sydd ar gael?
- Beth yw'r mesurau allweddol ar gyfer deall y modd y caiff rhaglenni eu rhoi ar waith?
- Beth yw'r mesurau allweddol ar gyfer deall canlyniadau rhaglenni, gan gynnwys canlyniadau cadarnhaol a negyddol anfwriadol?
- A yw'r mesurau arfaethedig yn ddigon sensitif i lywio dealltwriaeth o ddigwyddiadau unigryw (h.y. COVID-19) yn ogystal ag arferion bob dydd?
- Beth yw'r mesurau allweddol ar gyfer deall cynaliadwyedd prosesau cyflawni rhaglenni?

- Pa fesurau o'r effeithiau ar y boblogaeth gyfan a'r effeithiau amrywiol ar is-grwpiau o'r boblogaeth sydd ar gael eisoes a beth arall y mae angen ei fesur?

Dyma'r camau arfaethedig:

- Dadansoddi dogfennau polisi ac arferion allweddol o'r pum mlynedd diwethaf er mwyn nodi tybiaethau sefydledig ynghylch dulliau newid rhaglenni a datblygu damcaniaeth newid weithredol i'w hystyried. Bydd y gwaith dadansoddi hwn hefyd yn ceisio nodi'r canlynol: newidiadau mewn dealltwriaeth ac yn y derminoleg a ddefnyddir i drafod iechyd meddwl; y data a'r mesurau canlyniadau a ddefnyddir ar hyn o bryd; a ffynonellau data ar gyfer datblygu mesurau canlyniadau newydd ar gyfer y dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl.
- Trosolwg cyflym o adolygiadau o ymyriadau ysgol gyfan ar gyfer iechyd meddwl o'r pum mlynedd diwethaf, gan ddefnyddio dull trosolwg realydd o adolygiadau, sy'n canolbwyntio ar nodi damcaniaeth rhaglen drwy gysylltiadau rhwng dulliau a chanlyniadau. Fel gyda cham 1, bydd yr adolygiad hwn yn ceisio nodi newidiadau mewn dealltwriaeth a'r derminoleg a ddefnyddir i drafod iechyd meddwl, er mwyn nodi canlyniadau a ffynonellau data presennol i ddatblygu mesurau canlyniadau ar gyfer y dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl.
- Mae'r Cleient wedi cynnull gweithgor o randdeiliaid allweddol sy'n deall y broblem, y rhaglen, y lleoliad a'r cyd-destun polisi ehangach. Bydd y grŵp hwn yn gweithredu fel pwyllgor llywio astudiaeth a bydd yn darparu gwybodaeth drwy gydol y broses ymchwilio. Caiff cronfa ehangach o randdeiliaid ei recriwtio hefyd ar gyfer chwe grŵp ffocws ychwanegol.
- Datblygu map systemau a fydd yn dangos y system ysgolion bresennol mewn perthynas ag iechyd meddwl a mireinio'r ddamcaniaeth newid ar gyfer y dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl yn seiliedig ar adborth rhanddeiliaid.
- Nodi mesurau prosesau a chanlyniadau yn seiliedig ar y dulliau newid damcaniaethol, i'w defnyddio i werthuso'r dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl. Bydd hyn yn cynnwys nodi ffynonellau data presennol a gofynion o ran casglu data ychwanegol.
- Datblygu ac arfarnu mesurau gwerthuso a ffynonellau data mewn ymgynghoriad ag is-sampl o randdeiliaid perthnasol.
- Penderfynu'n derfynol ar y ddamcaniaeth newid a'r mesurau gwerthuso arfaethedig ac adrodd ar y canfyddiadau.

Dechreuodd y gwaith ar ddiwedd 2020 a disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Awst 2021. Mae'r sefyllfa barhaus o ran cau ysgolion wedi effeithio ar yr amserlen, yn enwedig y gwaith y mae angen ei wneud a'r cyfweliadau y mae angen eu cynnal â staff ysgol a staff eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith casglu tystiolaeth wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl cynnwys plant na phobl ifanc yn y gwaith ymchwil a bwriedir gwneud hyn pan fydd ysgolion yn ailagor.

**Rhaglen Mewngymorth i Ysgolion CAMHS**

Sefydlwyd Rhaglen Mewngymorth i Ysgolion CAMHS, a luniwyd fel rhaglen beilot dwy flynedd i ddechrau, yn 2018. Cafodd y rhaglen beilot, y bwriadwyd iddi bara tan haf 2020 yn wreiddiol, ei hymestyn gyntaf yn 2019 i gyd-daro â'r gwerthusiad terfynol (y bwriadwyd iddo ddod i ben ym mis Rhagfyr 2020 yn wreiddiol), ac yna cafodd ei hymestyn eto tan fis Gorffennaf 2021, yn sgil effaith pandemig COVID-19. At hynny, cafodd y cyllid a oedd ar gael ar gyfer y rhaglen beilot ei gynyddu yn 2019-20 a'i gynnal yn 2020-21, gan olygu bod cyfanswm y buddsoddiad yn y rhaglenni peilot ((heb gynnwys gweithgarwch gwerthuso) yn cyfateb i ychydig o dan £1m. Cyn y gwerthusiad terfynol o'r rhaglen (y disgwylir iddo gael ei gynnal ym mis Mawrth 2021), rydym wedi darparu £4m ychwanegol yng nghyllideb 2021-22 er mwyn gweithredu ar argymhellion y gwerthusiad a chyflwyno'r rhaglen ledled Cymru.

Ar yr un pryd ag y sefydlwyd y rhaglenni peilot, contractiwyd yr Uned Pobl a Gwaith i gynnal gwerthusiad annibynnol er mwyn deall sut mae rhaglen beilot Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn gweithio, a yw amcanion y rhaglen beilot yn cael eu cyflawni, a dealltwriaeth randdeiliaid o'r rhaglen beilot ym mhob un o'r rhanbarthau peilot. Dyma amcanion y gwerthusiad:

- Asesu a gwerthuso hyder a sgiliau athrawon ac ysgolion o ran ymateb i bryderon ynghylch iechyd emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion, gan gynnwys nodi disgyblion yn gynnar a'u cynorthwyo;
- Asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y rhaglenni peilot wrth ymateb i ddisgyblion â phroblemau mwy difrifol a hwyluso'r gallu i gael gafael ar gymorth arbenigol;
- Adolygu'r broses o roi'r rhaglenni peilot ar waith ac a yw'r gweithgarwch wedi'i gyflawni'n effeithiol;
- Ystyried sut mae pob un o'r ardaloedd peilot yn cefnogi atgyfeiriadau cyn y pwynt critigol at CAMHS;
- Nodi arferion da a chefnogi gwaith amlasiantaethol/trefniadau cydweithio;
- Darparu argymhellion ar gyfer gwaith amlasiantaeth yn y dyfodol, arferion da, ymchwil a pholisi a ph'un a oes angen cynnal rhagor o werthusiadau er mwyn llywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) ac Awdurdodau Lleol (ALlau) ynghylch y potensial i gyflwyno rhaglen beilot Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn y dyfodol.

Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y gwerthusiad. Rhoddwyd y gorau i'r arolwg llinell ganol arfaethedig o staff addysg, a dim ond yn rhannol y llwyddwyd i gwblhau'r ail gylch o ymchwil ansoddol gydag ysgolion a gwasanaethau (Llywodraeth Cymru, 2020b). Mae pandemig COVID-19 hefyd wedi newid cyd-destun y rhaglen beilot yn sylweddol, o ran anghenion, dichonoldeb gweithrediadau (megis newid i ddarpariaeth ar-lein) ac ymatebion polisi (gyda buddsoddiad a

gweithgarwch ychwanegol sylweddol yn y maes hwn). Bydd deall ei effaith ar y rhaglenni peilot ac ysgolion yn rhan hanfodol o'r gwerthusiad. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut mae wedi newid anghenion ysgolion ac effaith y rhaglen beilot ar gydnerthedd ysgolion (eu gallu i ymdopi ag effaith pandemig COVID-19 ar staff a myfyrwyr).

Mae dull gwerthuso seiliedig ar ddamcaniaeth, sy'n canolbwyntio ar brofi model rhesymeg rhaglen beilot Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn cael ei ddefnyddio. Er mwyn cynhyrchu data i brofi'r model rhesymeg a chanfod, er enghraifft, a yw gweithgareddau ac allbynnau'n cael eu cyflawni ac a yw canlyniadau'n cael eu cynhyrchu yn ôl y disgwyl, mae dulliau cymysg wedi'u defnyddio, gan gynnwys:

- Ymchwil desg;
- Arolwg llinell sylfaen o staff ysgolion;
- Ymchwil astudiaethau achos ansoddol;
- Ymgysylltu fel cyfaill beirniadol â thîm y rhaglen beilot genedlaethol a thîm y rhaglen beilot ym mhob ardal.

Un cylch arall o ymchwil ansoddol (a fydd yn cynnwys ymweliadau ag ysgolion a chyfweliadau â gwasanaethau) ac arolwg terfynol, y bwriedir eu cynnal yn ystod tymor y gwanwyn 2021. Mae'n rhaid i'r amseriad gydbwyso'r risg y caiff cyfyngiadau symud cenedlaethol a lleol pellach eu cyflwyno ac y caiff ysgolion eu cau â'r risg, os caiff gwaith maes ei wneud yn rhy gynnar, y caiff ei wneud yn ystod cyfnod pontio annodweddiadol pan fydd ysgolion a gwasanaethau a'r rhaglen beilot, er enghraifft, yn ailaddasu i ffyrdd newydd o weithio ac y bydd ganddynt lai o gymhelliant i ymgysylltu ac y byddant, o bosibl, yn llai abl i wneud hynny. Mae'r gwaith maes ar gyfer y gwerthusiad terfynol yn mynd rhagddo ond mae'r cyfyngiadau symud a'r penderfyniad i gau ysgolion wedi effeithio arno, a disgwylir i hyn effeithio ar yr adroddiad terfynol.

Mae gweddill y gwaith maes wedi'i strwythuro'n ddau gam cyffredinol. Byddai'r cyntaf yn canolbwyntio ar waith gyda'r rhaglenni peilot yn ystod tymor yr hydref wrth iddynt sefydlu eu ffyrdd o weithio a chynllunio ar gyfer gweddill y rhaglen beilot. Mae'r prosesau cyfathrebu wedi'u pennu a'u cydgysylltu â Chydgysylltydd cenedlaethol y rhaglen, a byddai'r gwaith yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Gwerthuso lefelau ymgysylltu ysgolion â'r rhaglen beilot;
- Ystyried sut mae gwaith y rhaglen beilot yn cyd-fynd ag ‘ecosystemau’ hyfforddi rhanbarthol;
- Gwerthusiad cymharol o hyfforddiant a dysgu proffesiynol;
- Gwerthusiad cymharol o'r modelau cynghori ac ymgynghori a gwaith dadansoddi achosion.

Byddai'r ail gam yn canolbwyntio ar yr arolwg terfynol o staff ysgolion ac ymchwil ansoddol gydag ysgolion a gwasanaethau, yn ystod tymor y gwanwyn 2021. Byddai hyn yn rhoi amser i'r rhaglen beilot ymsefydlu ac i ysgolion a gwasanaethau addasu i'r heriau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19, yn ogystal â sefydlu ffyrdd newydd o weithio yn ystod y pandemig. Byddai hefyd yn rhoi amser i drefnu newidiadau i ganiatadau presennol gan swyddfeydd Ymchwil a Datblygu Byrddau Iechyd Lleol er mwyn ymestyn a newid ffocws y gwerthusiad. Byddai'r ail gam yn cynnwys y canlynol:

- Gwerthuso'r gallu i gael gafael ar gymorth arbenigol ac atgyfeiriadau cyn y pwynt critigol at CAMHS;
- Yr arolwg terfynol o staff ysgolion;
- Ymchwil i ddeall i ba raddau y mae ardaloedd peilot yn cyflawni Amcanion y rhaglen yng nghyd-destun pandemig COVID-19, er enghraifft drwy ymestyn ymchwil ansoddol gydag ysgolion a gwasanaethau.

**Rhyngddibyniaethau a chynyddu cysylltiadau**

Gan gydnabod bod gorgyffwrdd rhwng y ddau werthusiad, mae Llywodraeth Cymru wedi annog yr Uned Pobl a Gwaith a Phrifysgol Caerdydd i gydweithio, lle y bo'n bosibl, er mwyn lleihau'r baich ymchwil ar awdurdodau lleol, ysgolion ac awdurdodau iechyd; gwneud y defnydd gorau o ganfyddiadau i lywio amrywiaeth o bolisïau; a sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer rhannu data.

| |
|---|
| **Argymhelliad 20.** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth cyn gynted â phosibl am y camau nesaf ar gyfer darpariaeth Haen 4, gan gynnwys llety i blant a phobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys manylion yr holl gyllid sydd ei angen. |

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi blaenoriaethu'r buddsoddiad ychwanegol hwn o £5.4m yn CAMHS a chaiff y cyllid ychwanegol ei gyfeirio at hybu gwasanaethau CAMHS y GIG yn erbyn Haen 4 (gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys gofal cleifion mewnol) a Thimau Therapi Dwys Cymunedol. Bydd atgyfnerthu'r cymorth mewn timau iechyd meddwl cymunedol er mwyn darparu mwy o gymorth dwys yn allweddol. Dylid anelu at leihau'r angen i dderbyn unigolion i'r ysbyty fel cleifion mewnol a darparu gofal llai dwys ar gyfer y rhai sy'n gadael darpariaeth cleifion mewnol.

Mae'r gwaith o gynllunio ar gyfer union natur y gwariant hwn wedi hen ddechrau a chaiff ei lywio gan adolygiad yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol o ddwy uned Haen 4 GIG Cymru. Caiff penderfyniadau cyllido terfynol eu llywio hefyd gan

adborth gan banel rheoli gwelyau CAMHS y GIG a'r adolygiad o welyau sy'n addas i oedran mewn Byrddau Iechyd Lleol. Bwriedir i hyn oll gadarnhau pa ddarpariaeth sydd ei hangen mewn cymunedau ac yn Haen 4 ac er budd pennaf y plant a'r bobl ifanc.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cyflwyno datganiadau o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio Cyllid Gofal Integredig i helpu i ddod o hyd i atebion llety i blant a phobl ifanc â'r anghenion mwyaf cymhleth. Mae pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cyflwyno cynnig ac mae'r cynigion hyn yn cael eu hasesu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 21.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o fanylion i ni am sut y mae’n sicrhau y bodlonir ei disgwyliad bod gwasanaethau amenedigol Byrddau Iechyd yn cyrraedd y safonau a bennwyd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion: a sut y mae'n bodloni ei hun fod cyllid digonol yn cael ei ddyrannu gan y Byrddau Iechyd yn hyn o beth.

**Ymateb: Derbyn**

Mae byrddau iechyd wedi cael eu cyfarwyddo i ddefnyddio'r Gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl i gefnogi gwasanaethau amenedigol (fel un o flaenoriaethau'r Cynllun Cyflawni Iechyd Meddwl) ac mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn cyrraedd Safonau'r Coleg Brenhinol fel rhan o'r broses hon. Bydd gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yn parhau i fod yn faes â blaenoriaeth am ein bod yn cydnabod bod angen cyllid ychwanegol yn y maes hwn er mwyn i Fyrddau Iechyd Lleol allu cydymffurfio â safonau cymunedol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion. Mae swyddogion yn monitro hyn drwy'r asesiad o gynlluniau a ariennir gan Gyllid Gwella Gwasanaethau a diweddariadau chwe-misol i Lywodraeth Cymru. Caiff cynnydd yn erbyn y safonau ei asesu hefyd drwy broses achredu ffurfiol.

Bydd effaith y cyllid hwn yn cael ei monitro trwy’r trefniadau y cytunir arnynt ar gyfer cynllun cyflawni 2019-2022 Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Caiff rhagor o fanylion eu cynnwys yn y diweddariad llawn nesaf i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a gyhoeddir ym mis Mawrth, mewn ymateb i argymhellion Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd Meddwl Amenedigol.

**Argymhelliad 22.** Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r hyn y mae’n ei fwriadu mewn perthynas â darpariaeth iechyd meddwl amenedigol arbenigol yn y gogledd (gan gynnwys trefniadau ariannu) fel mater o frys. Dylai hyn gynnwys manylion am y ddarpariaeth gymunedol yn ogystal ag uned mamau a babanod. Dylai hefyd gynnwys manylion am sut y mae'n bwriadu cynnig darpariaeth iechyd meddwl amenedigol yn y Gymraeg.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddatblygu rhagor o ddarpariaeth iechyd meddwl amenedigol arbenigol am Gogledd Cymru. Nodwyd bod anghenion menywod a theuluoedd yng Nghymru o ran y Gymraeg yn flaenoriaeth ac rydym wedi nodi'n glir fod yn rhaid ystyried sut y caiff yr anghenion hyn eu diwallu ym mhob agwedd ar y gwaith o ddarparu a staffio gwasanaethau. Caiff rhagor o fanylion eu cynnwys yn y diweddariad llawn nesaf i'r Pwyllgor mewn ymateb i argymhellion Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd Meddwl Amenedigol.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion i ni am yr £8 miliwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i blant y cyfeiriwyd ato yn nhystiolaeth y Dirprwy Weinidog.

**Ymateb: Derbyn**

Drwy gydol y pandemig, mae awdurdodau lleol wedi nodi bod lleoliadau wedi parhau'n sefydlog a'u bod wedi gweithio'n galed i gadw plant a phobl ifanc gyda'u teuluoedd. Lle y bu angen symud plant i leoliadau, mae awdurdodau lleol wedi rhoi trefniadau ar waith yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae awdurdodau lleol a'u gweithlu ymroddedig yn haeddu canmoliaeth am hyn. Maent yn gweithio'n galed ac yn ddiflino i ofalu am y plant a'r teuluoedd yn eu gofal.

Rydym yn deall yr anawsterau y mae gwasanaethau plant yn eu hwynebu yn sgil y pandemig. Lle y cafwyd pwysau ariannol ychwanegol, er enghraifft lle mae lleoliadau wedi cael eu hymestyn yn ystod y pandemig neu lle mae lleoliadau wedi methu ac mae gofal preswyl wedi'i ddarparu yn eu lle, mae awdurdodau lleol wedi gallu adennill y costau ychwanegol hyn drwy gronfa galedi llywodraeth leol. Hyd yma, rydym wedi darparu £8m o Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i blant. Rhoddir y manylion yn y tabl isod:

| | Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant |
|---|---|
| Blaenau Gwent | £ 94,322 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £ 47,032 |
| Caerffili | £ 244,876 |
| Caerdydd | £ 2,589,885 |
| Sir Gaerfyrddin | £ 209,584 |
| Ceredigion | £ 118,236 |

| | | |
|---|---|---|
| Conwy | £ | 260,568 |
| Sir Ddinbych | £ | 1,404 |
| Sir y Fflint | £ | 111,607 |
| Gwynedd | £ | 154,875 |
| Ynys Môn | £ | 68,081 |
| Merthyr Tudful | £ | 85,906 |

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro atgyfeiriadau diogelu plant yn wythnosol ac ymateb yn gyflym lle bo unrhyw bryderon y gallai achosion fod yn cael eu tangofnodi.

**Ymateb: Derbyn**

Drwy gydol y pandemig, rydym wedi parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â Chadeiryddion a Rheolwyr Busnes y Byrddau Diogelu a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant yng Nghymru. Mae hyn wedi rhoi cyfle gwerthfawr i nodi ac ystyried unrhyw amrywiadau o ran atgyfeiriadau diogelu plant a bydd y gweithgarwch ymgysylltu hwn yn parhau yn y dyfodol agos. At hynny, mae awdurdodau lleol wedi darparu data wythnosol yn yr Adroddiadau Pwyntiau Adolygu Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys asesiadau wythnosol o nifer y cysylltiadau diogelu a dderbyniwyd ar gyfer pob plentyn yng Nghymru. Mae'r data hyn bob amser wedi bod yn werthfawr i fonitro'r sefyllfa o ran atgyfeiriadau diogelu plant a bwriedir i'r data hyn barhau i gael eu casglu drwy gydol y pandemig. Caiff y data hyn hefyd eu rhannu â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a bydd y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol ynghylch atgyfeiriadau diogelu plant yn parhau.

**Argymhelliad 25.** Dylai Llywodraeth Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gyhoeddi cynigion wedi'u costio ar sut y mae'n bwriadu ymestyn y Cynnig Gofal Plant i rieni mewn addysg a hyfforddiant.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried goblygiadau ymestyn y Cynnig Gofal Plant i gynnwys rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu sydd ar fin dychwelyd i'r gwaith. Cynhaliwyd adolygiad o'r cymorth ariannol sydd ar gael ar hyn o bryd i'r rhieni hyn a disgwylir i ganfyddiadau'r adolygiad annibynnol hwn gael eu cyhoeddi yn ystod mis Mawrth 2021.

Wedi'u llywio gan ganfyddiadau'r adolygiad annibynnol, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried pob opsiwn ar gyfer cynyddu'r cymorth sydd ar gael i dalu costau gofal plant teuluoedd sydd ar fin dychwelyd i'r gwaith neu sydd mewn addysg a hyfforddiant i'r eithaf. Bydd hyn yn cynnwys ystyried dichonoldeb a manteision ymestyn y Cynnig Gofal Plant ond bydd hefyd yn ystyried a ellir sicrhau mwy o fanteision drwy newid cynlluniau cymorth presennol sydd ar gael i'r rhieni hyn.

**Argymhelliad 26.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu nodyn manwl i ni ar y Grant Plant a Chymunedau fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc. Dylai gynnwys:

Yr hyn sydd wedi'i fonitro ers cyflwyno’r grant o ran y canlyniadau i blant, ac ar ba adegau;

Naratif ynghylch y modd y mae'r grant hwn wedi sicrhau gwerth am arian hyd yma;

Esboniad o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi monitro manteision darparu grant heb ei neilltuo o ran yr hyblygrwydd y bwriadwyd iddo ei roi i awdurdodau lleol;

Manylion unrhyw newidiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol i unrhyw awdurdod lleol unigol eu gwneud o ganlyniad i'w gwaith parhaus o fonitro'r ffordd y caiff y grant ei ddyrannu;

Manylion y 'fframwaith canlyniadau trawslywodraethol' newydd sydd wedi'i ddatblygu.

**Ymateb: Derbyn**

- **Yr hyn sydd wedi'i fonitro ers cyflwyno’r grant o ran y canlyniadau i blant, ac ar ba adegau;**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnig dull cyllido hyblyg i awdurdodau lleol ar gyfer y Grant Plant a Chymunedau, a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau ynghylch sut i ddefnyddio eu harian grant i ddiwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed yn lleol yn eu hardal.

Mae gan Lywodraeth Cymru drefniadau cyllid a llywodraethu effeithiol ar waith i fonitro gwariant a'r ffordd y darperir gwasanaethau ar gyfer y Grant Plant a Chymunedau, lle mae pob awdurdod lleol yn darparu diweddariad ar gynnydd deirgwaith y flwyddyn, a asesir yn erbyn yr ymrwymiadau a nodir yn ei Gynllun Cyflawni blynyddol. Asesir yr adroddiadau cynnydd gan y timau perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys swyddogion polisi Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf. Mae hyn yn sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc yn parhau i gydymffurfio â chanllawiau rhaglenni cenedlaethol.

Yn ogystal â'r adroddiadau cynnydd, caiff data eu coladu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhai o'r rhaglenni unigol o fewn y Grant Plant a Chymunedau, er enghraifft mae'r gwaith o gasglu data monitro Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, sy'n bodoli eisoes, wedi parhau ochr yn ochr â phrosesau monitro'r Grant Plant a Chymunedau. Cyflwynir y data hyn bob tymor ar gyfer Dechrau'n Deg a dwywaith y flwyddyn ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf, ac fe'u defnyddir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y rhaglenni'n parhau i ddarparu gwasanaethau yn unol â chanllawiau rhaglenni cenedlaethol.

Mae gwaith i wella'r ffordd y caiff data Dechrau'n Deg eu casglu ac adneuo data yn SAIL (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw)[1] i'w gwerthuso hefyd yn parhau, er iddo gael ei atal dros dro tan fis Chwefror 2021 o ganlyniad i ymateb Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i bandemig byd-eang COVID-19, a bydd yn ailddechrau ar 23 Chwefror 2021 pan gyhoeddir papur ymchwil yn archwilio'r cysylltiadau rhwng cyfraddau presenoldeb Dechrau'n Deg a chanlyniadau addysg.

Mae'r cyllid a ddarperir drwy'r Grant Plant a Chymunedau wedi galluogi awdurdodau lleol, drwy elfen Gofal Plant a Chwarae y grant, i gefnogi'r gwaith o sefydlu darpariaeth gofal plant a chwarae wedi'i staffio o ansawdd uchel a sicrhau ei bod yn gynaliadwy. Mae darpariaeth gofal plant yn hanfodol i gefnogi gallu rhieni i weithio neu hyfforddi, ond mae hefyd yn darparu cymorth hanfodol yn ystod blynyddoedd cynharaf bywyd plentyn ac yn cefnogi ei ddatblygiad gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol parhaus. Mae darpariaeth chwarae wedi'i staffio megis clybiau y tu allan i'r ysgol neu gynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau hefyd yn cefnogi llesiant plant o oedran ysgol, yn ogystal â galluogi rhieni i weithio neu hyfforddi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn datblygu Fframwaith Canlyniadau ar y cyd ag awdurdodau lleol, a fydd yn cofnodi canlyniadau ar draws y Grant Plant a Chymunedau, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae gwaith i ddatblygu'r fframwaith canlyniadau ymhellach wedi'i atal ar hyn o bryd o ganlyniad i ymateb Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i bandemig byd-eang COVID-19. Byddwn yn ailddechrau ar y gwaith hwn yn y gwanwyn gydag awdurdodau lleol os bydd y pwysau sy'n gysylltiedig â delio â'r pandemig wedi lleihau erbyn hynny.

- **Naratif ynghylch y modd y mae'r grant hwn wedi sicrhau gwerth am arian hyd yma;**

[1] Cronfa ddata ym Mhrifysgol Abertawe yw Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), a ddefnyddir i gysylltu a dadansoddi data dienw. Mae'r broses hon yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddeall mwy am y gydberthynas rhwng meysydd darparu gwasanaethau cyhoeddus gwahanol a meithrin dealltwriaeth well o brofiadau pobl wrth iddynt symud drwy wasanaethau gwahanol.

Dyraniad cyllideb ddrafft y Grant Plant a Chymunedau yw £138.942m, sy'n amodol ar gymeradwyo'r gyllideb derfynol drwy'r Senedd.

Bob blwyddyn, mae'r awdurdodau lleol yn nodi sut maent yn bwriadu sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy gomisiynu gwasanaethau ar y cyd ac arbedion gweinyddol yn eu Cynlluniau Cyflawni blynyddol ar gyfer y Grant Plant a Chymunedau. Mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad ar yr agwedd hon ar eu Cynlluniau Cyflawni ddwywaith y flwyddyn, a gaiff ei fonitro gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r hyblygrwydd y mae'r Grant Plant a Chymunedau yn ei roi i awdurdodau lleol wedi helpu i sicrhau mwy o gysondeb rhwng y gwasanaethau ategol a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae hyn wedi galluogi awdurdodau lleol i gomisiynu gwasanaethau ar y cyd ar draws rhaglenni'r Grant Plant a Chymunedau er mwyn sicrhau arbedion maint a lleihau dyblygu, gan arwain at fwy o arbedion effeithlonrwydd a gwerth am arian.

Fel enghraifft o'r ffordd y mae awdurdodau lleol wedi sicrhau arbedion, nododd rhai eu bod wedi ailstrwythuro adnoddau ac wedi cyfuno rolau/swyddogaethau rheoli, gan eu galluogi i gynnig gwasanaeth integredig gwell drwy ganolfannau cymunedol, rhywbeth sydd wedi cael ei groesawu gan ddefnyddwyr y gwasanaethau.

- **Esboniad o sut y mae Llywodraeth Cymru wedi monitro manteision darparu grant heb ei neilltuo o ran yr hyblygrwydd y bwriadwyd iddo ei roi i awdurdodau lleol a manylion unrhyw newidiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol i unrhyw awdurdod lleol unigol eu gwneud o ganlyniad i waith parhaus y Llywodraeth o fonitro dyraniad y grant;**

Fel rhan o'r broses fonitro, gofynnir i awdurdodau lleol ddarparu manylion am wariant yn ôl maes rhaglen at ddibenion gwybodaeth. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gall Llywodraeth Cymru nodi sut mae awdurdodau lleol wedi cyfeirio eu cyllid gan y Grant Plant a Chymunedau at bob un o'r saith rhaglen ac wedi manteisio ar hyblygrwydd y grant. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20, roedd y swm a fuddsoddwyd mewn plant a phobl ifanc drwy raglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn cyfateb i'r dyraniadau cyllidebol hanesyddol i'r rhaglenni hynny cyn i'r Grant Plant a Chymunedau gael ei gyflwyno.

Ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad gwerthuso terfynol ar Ariannu Hyblyg [https://llyw.cymru/gwerthusor-rhaglen-ariannu-hyblyg-adroddiad-terfynol](https://llyw.cymru/gwerthusor-rhaglen-ariannu-hyblyg-adroddiad-terfynol).

Roedd rhai o'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys tystiolaeth bod rhai awdurdodau lleol yn gwneud newidiadau ar lefel strategol a'u bod yn sicrhau mwy o gysondeb rhwng gwasanaethau, gyda'r nod o wella eu gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal.

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gasglu adborth gan awdurdodau lleol ynghylch y ffordd y mae arian hyblyg yn cael ei ddefnyddio drwy ei phrosesau rheoli grantiau. Mae awdurdodau lleol wedi nodi bod y dull Ariannu Hyblyg wedi eu galluogi i ddyrannu cyllid i'r rhaglenni a gwmpesir gan y ddau grant er mwyn diwallu anghenion dinasyddion yn lleol. Nododd nifer o awdurdodau lleol eu bod yn defnyddio'r dull ariannu hyblyg hwn i ddwyn gwasanaethau o dan raglenni penodol, megis Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf, ynghyd mewn un ‘Model Cymorth i Deuluoedd’.  Ymhlith yr enghreifftiau mae darparu cymorth i rieni ledled ardal gyfan yr awdurdod lleol ac ymestyn y math o gymorth sydd ar gael drwy raglen Dechrau'n Deg i gynnwys mynediad at arbenigwyr iechyd eraill.

- **Manylion y 'fframwaith canlyniadau trawslywodraethol' newydd sydd wedi'i ddatblygu.**

Gweler uchod.